

# Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Menter Iaith Sir y Fflint

Nos Iau, 15fed o Dachwedd 2012 am 7.30 yr hwyr

Corlan, Parc Busnes Yr Wyddgrug, Stryd Wrecsam, Yr Wyddgrug, CH7 1XP

**Presennol:** Harri Bryn Jones, Nesta Davies, Nia Wyn Jones, Elan Prys Jones, Caren Prys Jones (Cyngor Sir y Fflint), Garmon Hafal, Aled Roberts (Llywodraeth Cymru), Eirwen Jones (Mudiad Meithrin), Rhian Davies, Huw Alun Roberts, Kieran Duff (FLVC), Gwawr Cordiner, Bronwen Wright (Merched y Wawr), Bethan Williams, Dylan Davies, Rebecca Roberts.

**Ymddiheuriadau:** Keith Redfern Humphries, Darren Morris (Urdd), Siân Rogers (Urdd), Jill Blandford (FLVC), Eirlys Gruffydd (Gŵyl Cilcain), Eirian Conlon (Prifysgol Bangor), Howard Thomas, Dee Williams (Canolfan Deuluoedd Gogledd Wledig), Helen Roberts (SYFFLAG a Cylch Terrig), Iwan Jones, Iddon Edwards (Llywodraeth Cymru), Nia Connah (Ysgol Terrig), Doli Edwards (Ysgol Mornant), Iwan Jones (Ysgol Croes Atti), Llinos Mary Jones (Ysgol Glanrafon), Iola Owen (Ysgol Gwenffrwd), Ceri Hulmes (Mudiad Meithrin), Carl Renshaw.

## 1. Croeso gan y Cadeirydd

Diolchodd y cadeirydd i'r staff a'r cyfarwyddwyr am eu gwaith caled yn ystod y flwyddyn gan estyn croeso mawr i'r staff newydd Elan, Garmon ac Eryl.

Tynnodd sylw at fudiad newydd Arddel – sy'n annog Cymry Cymraeg i ddefnyddio'u Cymraeg ym mhob sefyllfa posibl. Soniodd am ddarlith Cynnog Dafis yn Eisteddfod Bro Morgannwg eleni. Gwerth ei ddarlennu ac yn annog pawb i fod yn bositif tuag at yr iaith Gymraeg ac i fod yn falch o'i ddefnyddio ymhob sector. Mentrwch i ddefnyddio'r Gymraeg, o ddydd i ddydd, yn y swyddfa bost, yn y gwaith ac yn gymdeithasol.

## 2. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2011

Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan Nesta Davies ac eiliwyd gan Dylan Davies.

## 3. Materion yn Codi

**Tecniwm Iaith** - Wedi bod i edrych ar Dŷ Bromfield, ac wedi cael caniatâd mewn egwyddor i newid defnydd y safle. O ganlyniad i'r hinsawdd economaidd a'r sefyllfa ariannol, mae'r cynllun wedi ei roi o'r neilltu am y tro. Rydym yn dal yn gobeithio gwireddu'r weledigaeth yn y dyfodol.

## 4. Derbyn Adroddiad y Rheolwr

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol gan y Rheolwr gan dynnu sylw at y meysydd gwaith yr ydym wedi bod yn canolbwyntio arnynt am y flwyddyn, sy'n cynnwys teuluoedd, plant a phobl ifanc a chymunedau penodol.

Nodwyd y pwyslais bellach ar fesur effaith gweithgareddau, a phwysigrwyd yr elfen o fonitro, gwerthuso ac adrodd yn ôl ar ganlyniadau.

Arweiniodd llwyddiant y Prosiect Iaith a Threftadaeth at sicrhau grant pellach trwy'r Cynllun Datblygu Gwledig i arwain ar brosiect cyffelyb ond yn drawsirrol - yn Fflint, Dinbych, Maelor a Chonwy. Denwyd £80,000 yn ychwanegol i'r £200,000 blaenorol trwy'r cynllun.

Tynnodd y rheolwr sylw at y pwysigrwydd o gydweithio gyda'n partneriaid megis yr Urdd, Mudiad Meithrin, Cyngor Sir y Fflint a'r Colegau ac Ysgolion lleol.

Diolchodd i'r staff, cyfarwyddwyr, partneriaid a'r gynulleidfa am eu cefnogaeth barhaol yn ystod y flwyddyn brysur, gan ddiolch am y cyfle eto i gyflawni ar lawr gwlad.

#### **5. Derbyn Cyfrifon hyd at Fawrth 31ain 2012-11-22**

Diolchwyd i Eryl a Gwawr Murphy am eu gwaith gyda'r cyfrifon dros y flwyddyn a llongyfarchiadau hefyd i Gwawr Murphy ar enedigaeth Anna Catrin. Y Bwrdd Cyfarwyddwyr wedi derbyn y cyfrifon eisoes. Derbyniwyd ymddiheuriadau gwresog gan Carl Renshaw, Trysorydd newydd y Fenter am fethu bod yn bresennol.

Cynigiwyd y cyfrifon yn gywir gan Hari Bryn Jones ac eiliwyd gan Dylan Davies.

#### **6. Ethol Bwrdd Cyfarwyddwyr**

Mae Gwenno Jones a Gwennan Henstock wedi ymddiswyddo o'i swyddi fel Cyfarwyddwyr yn ystod y flwyddyn a diolchwyd iddynt am eu hamser a'u cefnogaeth yn ystod eu cyfnod ar y bwrdd.

Pasiwyd i ail-ethol y cyfarwyddwyr canlynol: Huw Alun Roberts, Hari Bryn Jones, Dylan Davies, Nesta Davies, Carl Renshaw, Bronwen Hughes, Nia Wyn Jones

Cynigiwyd enw cyfarwyddwr newydd, sef Caren Bryon a derbyniwyd hynny ar y noson.

#### **7. Unrhyw Fater Arall**

Dim Materion eraill

#### **8. Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Blynyddol Nesaf**

Tachwedd 14eg, 2013

#### **9. Anerchiad gan Aled Roberts – Aelod Cynulliad**

Croesawyd Aled Roberts gan y Cadeirydd, gan nodi ei fod yn un o sêr ein Cynulliad bellach!

Gwerthfawrogwyd ei waith cynt yn arwain ar Gyngor Wrecsam, a'i weledigaeth i ddatblygu

Addysg Gymraeg. Cafwyd cymorth mawr yn ystod cyfnod cythryblus llynedd pan fu bygythiad i ddyfodol Addysg Gymraeg yn ysgolion Terrig a Gwenffrwd.

Cafwyd cyflwyniad ac yna thrafodaeth eang am sefyllfa'r Gymraeg yma yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, gan nodi y bydd ffigyrau'r Cyfrifiad yn cael eu cyhoeddi'n fuan, a bod sialens i ni gyd ar lefel bersonol, sirrol a cenedlaethol i sicrhau parhad i'r Gymraeg. Rhaid peidio cymryd yn ganiataol fod y frwydr iaith wedi ei hennill gan for statws swyddogol iddo bellach, mae'n frwydr ddyddiol i'n plant a'n pobl ifanc, ac i bob unigolyn - a dyna pam fod rôl y Mentrau Iaith mor bwysig.